**<u>Straeon Mudo Caerdydd</u>**

# Anna




*Llun - diolch i Anna Constantinou ©*

"Fe'm ganed yng Nghaerdydd. Cefais fy magu yn yr Eglwys Newydd. Daeth fy nheulu cyfan o Gyprus ac roedden nhw'n ffermwyr cyn dechrau trin gwallt, felly mae'r teulu wedi bod yn trin gwallt ers 66 mlynedd." Mae llawer o siopau trin gwallt Constantinou i gael.



*Salon Anna yng Nghaerdydd – diolch i Anna Constantinou ©*

(Cwestiwn am draddodiadau Groeg) “Dwi’n meddwl mai’r bwyd ydi’r prif beth: peli cig, dail gwynwydd, macaroni a chaws, rhai mathau o gig oen – cig oen yn y popty ac ati.  Dwi’n meddwl bod ni’n licio dathlu lot, cyfle i ddathlu fel teulu a dod at ein gilydd – ‘dyn ni wastad wedi gwneud hynny, achos bod cymaint ohonon ni. Os oes yna ben-blwydd neu rywbeth, ‘dyn ni’n dod ynghyd i weld ein gilydd.”

(Pam ddaeth eich rhieni drosodd?) “Dad ddaeth gyntaf, pan oedd yn iau. Dywedon nhw wrtho ei bod yn wlad gyfoethog. (Yn debyg i Gyprus felly?) "Na ond dywedon nhw hynny wrtho felly daeth e draw. Roedd e yma am gwpl o flynyddoedd cyn dod i nôl mam ond pan ddaeth e yma roedd e’n gweithio ym Mhort Talbot, a gadawodd y dyn oedd yn berchen ar y lle iddo aros yna fel y gallai agor ei fusnes ei hun. O hynny cafodd ddigon o arian i agor ei fusnes (Sef siop trin gwallt?) “Ie, dyna sut ddechreuodd popeth, daeth e a’i frawd i agor y siop gyntaf yn Nhreganna, flynyddoedd maith yn ôl."



*Llun - diolch i Anna Constantinou ©*